# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (240)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 25 Ionawr 2011**
**Amser: 13.30**

**13.30**
**Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 8.

………………………

**14.25**
**Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

………………………

**Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: Polisi Dŵr** ***- gohiriwyd yr eitem hon***

………………………

**14.53**
**Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a Chynhadledd Cancun**

………………………

**15.27**
**Eitem 5: Dadl ar ariannu heddlu Cymru**

**NDM4637 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi'r sefyllfa arfaethedig ar gyfer ariannu'r heddlu yng Nghymru yn y dyfodol yn sgil Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU; ac

2. Yn nodi asesiad Awdurdodau Heddlu Cymru o'r setliad ac yn credu y gall hyn gael effaith sylweddol ar wasanaethau.

*Mae copi o ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth y DU ar 13 Rhagfyr 2010 ynghylch dyraniadau grant dros dro i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2011/12 ar gael drwy ddilyn y linc a ganlyn:*

*http://www.homeoffice.gov.uk/publications/parliamentary-business/written-ministerial-statement/allocations-police-england-wales*

*Mae copi o ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 13 Rhagfyr 2010 ynghylch Setliad Dros Dro yr Heddlu ar gyfer 2011-12 ar gael drwy ddilyn y linc a ganlyn:*

*http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/101213police/?skip=1&lang=cy*

*Anfonwyd copi o'r papur ar faterion ariannol gwasanaeth yr heddlu a gafodd ystyriaeth gan Bwyllgor Cyllid ac Archwilio Awdurdodau Heddlu Cymru ar 14 Ionawr 2011 mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 18 Ionawr 2011.*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi Adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi 'Police Governance in Austerity' a ddaeth i'r canlyniad y dylai awdurdodau heddlu, 'cyn iddynt gael eu dirwyn i ben, ganolbwyntio ar osod cyfeiriad fforddiadwy ar gyfer plismona, yn ogystal ag archwilio costau a dewisiadau amgen sy'n cynnig gwell gwerth am arian i'r cyhoedd'.

Gellir gweld yr adroddiad 'Police Governance in Austerity' drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.hmic.gov.uk/inspections/pages/policeauthorityinspections.aspx

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

...........................

**16.08**
**Eitem 6: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Ynni**

**NDM4634 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

I gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau sy'n ymwneud â'r Awdurdod Glo yn Rhan 4 o'r Mesur Seneddol ynghylch Ynni, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 8 Rhagfyr 2010, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 26.2(i).*

*I weld copi o'r Mesur Seneddol ynghylch Ynni ewch i:*

*http://services.parliament.uk/bills/2010-11/energyhl.html*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

...........................

**16.10**

**Eitem 7: Dadl Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)**

**NDM4635 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:

Yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig Ynghylch Tai (Cymru).

*Gosodwyd Mesur Arfaethedig Ynghylch Tai (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 22 Tachwedd 2010;*

*Gosodwyd adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar y Mesur Arfaethedig Ynghylch Tai (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 18 Ionawr 2011.*

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 10 | 0 | 49* |

**Derbyniwyd y cynnig.**

***Ni chofrestrwyd pleidlais Bethan Jenkins ar y Mesur oherwydd nam technegol.***

**16.55**

**NDM4636 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Mesur Arfaethedig Ynghylch Tai (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii), sy’n codi o ganlyniad i’r Mesur.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 10 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**16.55**

**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.57**

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 26 Ionawr 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**